# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09:01 – 09:38** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_30_04_2013&t=172&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Elin Jones** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ceisio ei barn am y ddeiseb.

Cynigiodd Joyce Watson ei bod yn cwrdd â'r deisebwyr, yng nghyd-destun ymweliad â Meirionnydd yn ei rhanbarth hi, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

### 2.2P-04-476 Ailstrwythuro Amgueddfa Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu at;

- Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon; ac
- Amgueddfa Cymru yn ceisio eu barn am y ddeiseb

### 2.3P-04-477 Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ceisio ei farn am y ddeiseb.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod wedi bod i gyfarfodydd ar bwnc y ddeiseb a drefnwyd gan Julie Morgan AC a'r deisebwr.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i rannu gwybodaeth y deisebwr â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan amlygu'r meysydd i'w gwella a nodwyd, a gofyn sut y mae'n bwriadu gweithredu ar y rhain.

### 3.2P-04-396 Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys i Blant Ysgol

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn holi a roddwyd unrhyw ystyriaeth i sefydlu hyfforddiant sgiliau triniaeth cynnal bywyd brys yn rhan graidd o Fagloriaeth Cymru.

### 3.3P-04-424 Cadw gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i aros am lansiad yr ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd yn Ne Cymru, ac edrych eto ar y ddeiseb yn wyneb y cynigion ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

### 3.4P-04-450 Mae Angen Ysbyty Cwbl Weithredol ar y Barri a Bro Morgannwg

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i geisio barn y deisebwr am yr ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

### 3.5P-04-361 Pas bws am ddim i fyfyrwyr o dan 25 oed sydd mewn addysg llawn amser

### 3.6P-04-371 Tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus i bob plentyn hyd at 18 oed

### 3.7P-04-382 Costau teithio i fyfyrwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor y deisebau a chytuno i'w cau yn wyneb y gwaith blaenorol a wnaed ar y deisebau. Ni chafwyd ymateb gan y deisebwr.

**3.8P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i;

- ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn holi am ragor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ailystyried ei hopsiynau ar hyd cefnffyrdd Cymru gan rannu'r ohebiaeth gan Gyngor Powys; a
- gofyn am frîff ymchwil ar gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i hwyluso gweithio tawsffiniol.

**3.9P-04-409 Enwau Cymraeg i bob cefnffordd newydd yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i gau'r ddeiseb yn wyneb yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, gan nodi nad yw'n bosibl ailenwi cefnffyrdd.

**3.10 P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan ofyn a fyddai modd i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar y mater.

**3.11 P-04-438 Hygyrchedd wrth Siopa**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb a chytuno i;

- ysgrifennu at St Davids Dewi Sant yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei strategaeth arwyddion gan ei fod yn ymwneud â thoiledau Changing Places;
- ysgrifennu at Gyngor Caerdydd yn amlygu'r pryderon ynghylch rhwystrau ar lwybrau cyhoeddus, parcio a chroesfannau ffordd; a
- cheisio brîff cyfreithiol ar y ddeiseb, o ran cymhwysedd y Cynulliad.

**3.12 P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin - Ynys Môn**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i ysgrifennu at Gyngor Ynys Môn yn ceisio ei farn am y ddeiseb ac yn holi pam na weithredwyd ar hyn ac a yw'n teimlo bod digon wedi ei wneud i ddiogelu tir comin.

**3.13 P-04-465 Achub llaeth Cymru, a seilwaith a swyddi'r diwydiant**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i geisio barn y deisebwr am ohebiaeth y Gweinidog.

**3.14 P-04-427 Cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i gau'r ddeiseb yn wyneb yr ymatebion gan y Gweinidog a Chomisiynydd y Gymraeg sy'n awgrymu nad oes deddfwriaeth newydd ar y ffordd.

### 3.15 P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion

Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'r gwaith ymgynghori a wnaed ar y ddeiseb a chytuno i gael tystiolaeth lafar.

### 3.16 P-04-467 Arholiadau ym mis Ionawr

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytuno i;

- rannu datganiad y Gweinidog gyda'r deisebwyr; ac
- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn a fyddai modd i'r Pwyllgor gael gwybod pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ar asesiadau mis Ionawr.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5. Trafod y Flaenraglen Waith

Ystyriodd yr Aelodau'r flaenraglen waith.